Argymhellion ar weithredu'r darpariaethau pontio yn Neddf Addysg 2002

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

…Rhagoriaeth i bawb… …Excellence for all…

© Hawlfraint y Goron 2004. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW
Ffôn: 02920 446446
Ffacs: 02920 446448
www.estyn.gov.uk

Cynnwys **Tudalen**

1. Cyflwyniad 4

2. Prif Ganfyddiadau 5

3. Argymhellion 6

4. Trefniadau pontio 8

4.1 Arweinyddiaeth a rheolaeth:
- Awdurdodau addysg lleol 8
- Ysgolion 9

4.2 Cyflawniad, cyrhaeddiad ac anghenion dysgu:
- Meddu ar wybodaeth am gyflawniad disgyblion a defnyddio'r wybodaeth honno 11
- Anghenion dysgu ychwanegol 13
- Ymddygiad a phresenoldeb 14
- Rhannu gwybodaeth 15

4.3 Addysgu a dysgu:
- Cyflawni parhad 15
- Dysgwyr fel meddylwyr 16
- Asesu ar gyfer dysgu 17

4.4 Cwricwlwm a threfniadaeth 17

4.5 Datblygiad proffesiynol ac adnoddau 18

1. Cyflwyniad

1.1 Diben y papur hwn yw rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar weithredu'r darpariaethau pontio yn Neddf Addysg 2002. Mae'r Ddeddf yn datgan y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethol ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo 'baratoi cynlluniau ar y cyd i hwyluso cyfnod pontio disgyblion o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion cynradd hynny sy'n cael mynediad i'r ysgol uwchradd'[1].

1.2 Mae'r ddogfen ymbaratoi, 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn datgan mai bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau pontio gwell rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd i sicrhau ei fod:

- yn cyfrannu at godi'n sylweddol y safonau y mae disgyblion 11 i 14 oed yn eu cyflawni;
- yn cydweddu â'r ymdrech i ychwanegu gwerth sylweddol at y safonau sy'n cael eu cyflawni rhwng 7 i 11 oed; ac
- yn cysylltu â chytundebau clir rhwng ysgolion ac awdurdodau addysg lleol (AALlau) ynghylch canlyniadau a chynhaliaeth gysylltiedig.

Mae'r cyngor yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai 'pob ysgol uwchradd ac ysgol gynradd sy'n bwydo ffurfio teuluoedd neu gonsortia, a chynllunio mewn ffyrdd i wneud y defnydd gorau o flwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 2 a blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn Cyfnod Allweddol 3, gan ystyried anghenion pob plentyn beth bynnag yw eu doniau a'u talentau; a darparu ar gyfer pontio cadarnhaol i ddisgyblion wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd'[2]. Mae'n haws i ysgolion cynradd ac uwchradd ffurfio teuluoedd neu gonsortia at y diben hwn mewn ardaloedd lle mae rhan fwyaf y disgyblion o ysgol gynradd yn trosglwyddo i'r un ysgol uwchradd. Mae'r cyngor ar gynlluniau pontio ar y cyd wedi'i seilio ar y patrwm hwn o drosglwyddo, ond cynhwysa argymhellion i wella cyfnod pontio pob disgybl, gan gynnwys y rheiny sy'n trosglwyddo i ysgol uwchradd y tu allan i'w teulu neu gonsortiwm o ysgolion.

1.3 Mae'r cyngor hwn yn cynnwys arweiniad, arfer dda ac argymhellion 'Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3', 2002, a 'Symud ymlaen…Pontio effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3,' 2004, a gyhoeddwyd gan Estyn, ar y cyd ag ACCAC a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r gwaith sylweddol sydd eisoes wedi'i wneud mewn llawer o ysgolion ac AALlau i wella'r pontio. Yn benodol, mae'r cyngor yn tynnu ar ymweliadau â swyddogion addysg ac ysgolion mewn un ar ddeg o Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau).

[1] Deddf Addysg, 2002, Rhan 11, 198, Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd
[2] Y Wlad sy'n Dysgu, Pontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd, tud.20

2. Prif Ganfyddiadau

2.1 Mae gan rai AALlau bolisïau clir ar gyfer pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd sy'n llywio cynlluniau trefniadaeth ysgolion, dyrannu adnoddau, patrymau cyflwyno gwasanaethau, mentrau datblygu cwricwlwm, rheoli data a datblygiad proffesiynol. Mae rhai AALlau wedi ad-drefnu'u gwasanaethau addysgol yn dimau mwy cydlynol o fewn consortia neu deuluoedd o ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae darparu cynhaliaeth yn y modd hwn yn gwella parhad addysgol ac yn lleihau achosion o eithrio, absenoldeb ac anfodlonrwydd. AALlau sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn hyn o beth, lle mae gwella pontio'n flaenoriaeth yn y Cynllun Strategol Addysg a lle mae uwch swyddog dynodedig yn gyfrifol am strategaeth a chynhaliaeth i ysgolion.

2.2 Mae newid yn effeithio ar gynnydd a datblygiad disgyblion, pa un a yw'n bontio rhwng un grŵp blwyddyn ag un arall neu drosglwyddo rhwng ysgolion. Wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, mae llawer o ddisgyblion yn pontio'n llwyddiannus yn gymdeithasol.

2.3 Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae llawer o AALlau ac ysgolion wedi datblygu cynlluniau a rhaglenni da i wella'r pontio addysgol. Mae'r cynlluniau mwyaf effeithiol yn nodi agweddau gwahanol ar y cyfnod pontio, y modd y caiff gwelliannau eu gwneud a rolau priodol a chyfrifoldeb am arwain a rheoli'r broses bontio. Nid oes gan ychydig o AALlau ac ysgolion gynlluniau na threfniadau cadarn i wella pontio.

2.4 Mae rhan fwyaf yr ysgolion wedi gwella rhai agweddau ar bontio ac mae ganddynt gynlluniau da i wella agweddau eraill. Dim ond nifer fach o ysgolion cynradd ac uwchradd sydd â pholisïau cynhwysfawr ar y cyd i ffurfioli trefniadau pontio, gan gynnwys rheoli pontio, rhannu gwybodaeth am gyflawniadau ac anghenion dysgu disgyblion, dulliau addysgu a dysgu, asesu, olrhain cynnydd disgyblion, trefnu'r cwricwlwm a datblygiad proffesiynol. Mae rhan fwyaf yr ysgolion yn monitro ac yn adolygu trefniadau pontio diwygiedig, ond nifer fach sydd â ffyrdd i arfarnu effaith trefniadau pontio ar safonau.

2.5 Mae gan rai ysgolion uwchradd drefniadau da i ddod i wybod am anghenion dysgu disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd y tu allan i dalgylch traddodiadol yr ysgol, ond mae llawer o ysgolion uwchradd yn aml yn cael cryn dipyn llai o wybodaeth am y disgyblion hyn yn y categori hwn. Gall hyn olygu bod y disgyblion hyn dan anfantais pan nad oes digon o wybodaeth am eu cyflawniadau a'u hanghenion blaenorol.

2.6 O gymharu â rhai blynyddoedd yn ôl, mae ysgolion cynradd ac uwchradd bellach yn rhannu mwy o wybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion unigol a'r ffactorau cyfrannol, fel presenoldeb ac anawsterau ymddygiad. Lle caiff gwybodaeth felly ei defnyddio'n dda, mae athrawon uwchradd yn dechrau addysgu ar y lefel iawn ac yn y modd iawn i ddarparu'r cam nesaf mewn dysgu i

ddisgyblion ar ddechrau Blwyddyn 7. Nid ydynt yn gwastraffu amser addysgu gwerthfawr yn ceisio dod o hyd i wybodaeth sydd eisoes yn bod am anghenion eu disgyblion. Fodd bynnag, mae faint o wybodaeth sydd ar gael, pryd y caiff ei darparu a'r modd y caiff ei defnyddio yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol. Mae gormod o ddisgyblion Blwyddyn 7 yn gweithio ar lefel is nag ym Mlwyddyn 6 neu'n ailadrodd gwaith y maent wedi'i wneud eisoes. Er bod rhywfaint o arfer effeithiol yn datblygu, at ei gilydd mae gormod o ysgolion cynradd o hyd nad ydynt yn trosglwyddo digon o wybodaeth o ansawdd dda ymlaen i ysgolion uwchradd.

2.7 Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydweithio'n effeithiol i wella parhad a dilyniant mewn addysgu a dysgu. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn wedi galluogi athrawon uwchradd i addysgu pynciau a medrau allweddol mewn ffyrdd sy'n adeiladu ar ddulliau ysgol gynradd. Mae gormod o athrawon Blwyddyn 7 nad ydynt yn gwybod digon o hyd am y modd y caiff pynciau a medrau eu haddysgu a'u hasesu yng nghyfnod allweddol 2 i gynllunio ar gyfer y parhad mewn dysgu a fyddai'n helpu disgyblion i wneud cynnydd pellach.

*2.*8 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn addasu cwricwlwm Blwyddyn 7 yn llwyddiannus i'w wneud yn llai rhanedig. Mae'r ysgolion sydd wedi gwneud fwyaf i wella parhad mewn addysgu a dysgu wedi trefnu i athrawon cynradd ac uwchradd arsylwi dulliau addysgu a gwaith disgyblion yn nosbarthiadau ei gilydd. Mae'r sesiynau arsylwi hyn wedi ysgogi rhai mentrau datblygiad proffesiynol llwyddiannus iawn i wella'r pontio. Mae llawer o'r mentrau hyn wedi'u hwyluso yn sgîl nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, AALlau, Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, a'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a Grantiau ar gyfer Cymorth a Hyfforddiant Addysgol (GEST).

3. Argymhellion

3.1 Dylai pob AALl feddu ar gynlluniau i wella pontio. Dylai cynlluniau gynnwys o leiaf drefniadau'r AALl i ddarparu:

- cynhaliaeth i ysgolion cynradd ac uwchradd wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau pontio ar y cyd;
- datblygiad a hyfforddiant ar gyfer penaethiaid cynradd ac uwchradd, llywodraethwyr, uwch reolwyr, athrawon a staff nad ydynt yn staff addysgu sy'n briodol i'w rolau a'u cyfrifoldebau ar gyfer trosglwyddo;
- cyngor a chynhaliaeth i fodloni anghenion a blaenoriaethau penodol grwpiau o ysgolion cynradd ac uwchradd; a
- gwybodaeth sy'n galluogi grwpiau o ysgolion cynradd ac uwchradd i gofnodi, olrhain a dadansoddi cynnydd disgyblion.

3.2 Dylai pob ysgol feddu ar gynlluniau pontio. Ble bynnag y bydd modd, dylai'r rhain gynnwys trefniadau ar gyfer pontio rhwng ysgolion sy'n rhan o gonsortia neu deuluoedd cydnabyddedig. Fodd bynnag, dylai'r cynlluniau hefyd gynnwys trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion y tu allan i'r consortiwm neu deulu, neu ohonynt.

3.3 Dylai pob ysgol gynradd drosglwyddo 'craidd' gorfodol o wybodaeth o leiaf am bob disgybl i'r ysgol uwchradd y bydd yn ei mynychu. Dylai'r gofyniad hwn fod yn berthnasol mewn perthynas â phob disgybl, gan gynnwys y rheiny sy'n trosglwyddo i ysgol uwchradd nad yw'n cael ei chysylltu fel arfer â'u hysgol gynradd.

Ar gyfer pob disgybl, dylai'r craidd statudol o wybodaeth gynnwys:

- y lefelau cwricwlwm cenedlaethol sydd wedi'u cyrraedd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd trwy asesiadau athrawon ac mewn profion neu dasgau, gan gynnwys sgorau crai o'r taflenni marcio profion a marciau yn ôl targed cyrhaeddiad, lle maent ar gael;
- papurau profion neu dasgau cyfnod allweddol 2 wedi'u marcio;
- safonau cyrhaeddiad yn y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol;
- safonau cyrhaeddiad mewn Cymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith;
- safonau llythrennedd lle mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol;
- copïau o adroddiad Blwyddyn 6 i rieni;
- cofnod presenoldeb;
- cynllun cymorth ymddygiad, (lle bydd yn berthnasol);
- Cynllun Addysg Unigol (CAU) neu ddatganiad o anghenion addysgol, (lle mae'n berthnasol);
- manylion am gyflawniadau neu ddoniau penodol, er enghraifft, mewn cerddoriaeth, chwaraeon, celf, technoleg gwybodaeth; ac
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n debygol o effeithio ar drosglwyddo'n llwyddiannus yn gymdeithasol neu'n academaidd.

3.4 Dylai consortia neu deuluoedd o ysgolion cynradd ac uwchradd feddu ar gynlluniau pontio ar y cyd. Ysgolion cynradd ac uwchradd ddylai benderfynu ar fanylion y cynlluniau yn ôl eu hamgylchiadau unigol. Fodd bynnag, dylai'r cynlluniau hyn gynnwys trefniadau ar y cyd ar gyfer:

- rheoli a chydlynu'r pontio;
- bodloni anghenion personol a chymdeithasol disgyblion;
- cyfleu anghenion dysgu disgyblion unigol;
- cynllunio'r cwricwlwm;
- cyflawni parhad mewn dulliau addysgu a dysgu;
- cyflawni cysondeb yn yr asesu;

- datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion;
- rhannu gwybodaeth am gyflawniad, cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion;
- monitro safonau ac olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn cyrhaeddiad blaenorol;
- datblygiad proffesiynol ; ac
- arfarnu effaith y cynllun a'r mentrau gwella ar safonau.

3.5 Dylai cynlluniau pontio ar y cyd gynnwys hefyd y modd y bydd ysgolion yn datblygu ffyrdd i wella'r safonau a gyflawnir gan bob disgybl, yn benodol, drwy fodloni anghenion dysgu disgyblion unigol:

- y mae angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt;
- sy'n tangyflawni;
- sydd mewn perygl o dangyflawni;
- sy'n alluog neu'n dalentog;
- sydd â diffyg cymhelliant a hunanbarch;
- sydd ag anawsterau ymddygiad;
- sydd â phroblemau presenoldeb;
- y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt; ac
- sy'n blant y gofelir amdanynt.

4. Trefniadau pontio

4.1 Arweinyddiaeth a rheolaeth

AALlau

4.1.1 Mae llawer o AALlau wedi arwain y ffordd wrth wella'r cyfnod pontio. Mae gan rai Cynlluniau Strategol Addysg raglenni tair blynedd sy'n cynnwys pob un o'r rheiny sy'n gyfrifol am wella safonau ac ansawdd addysgu a dysgu disgyblion, pan fyddant yn trosglwyddo o un ysgol i'r llall.

4.1.2 Mae rhai AALlau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, lle mae bron pob un o'r disgyblion o grŵp o ysgolion cynradd yn trosglwyddo i un ysgol uwchradd, wedi ffurfioli trefniant ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn 'gonsortia' neu'n deuluoedd. Yn Sir Benfro, er enghraifft, mae datblygu teuluoedd o ysgolion yn elfen ganolog yn y Cynllun Strategol Addysg.

41.3 Mae rhai AALlau wedi ad-drefnu'u gwasanaethau addysgol yn dimau, ar sail y teuluoedd ysgol hyn, i ddarparu cynhaliaeth wedi'i theilwra i staff a disgyblion. Mae'r timau hyn yn cynnwys seicolegwyr addysgol, swyddogion lles addysgol, cynghorwyr addysg a gweithwyr ieuenctid sy'n cydweithio gydag

athrawon. Mae gweithio gyda disgyblion a theuluoedd o ysgolion ar draws cyfnodau allweddol yn y modd hwn yn helpu i wella parhad a chynnydd ac yn lleihau achosion o eithrio, absenoldeb ac anfodlonrwydd.

4.1.4 Mewn AALlau a chanddynt swyddog dynodedig sy'n gyfrifol am arwain y gwaith hwn ar lefel strategol y cafwyd y gwelliant mwyaf yn y cyfnod pontio. Mae rhai AALlau (er enghraifft, Casnewydd a Sir Benfro) wedi secondio aelod o staff hŷn yr ysgol i wneud hyn. Mae'r swyddogion hyn wedi llunio polisïau AALl clir ar gyfer pontio sy'n llywio cynlluniau trefniadaeth ysgolion, dyrannu adnoddau, patrymau cyflwyno gwasanaethau, mentrau datblygu cwricwlwm, rheoli data perfformiad a datblygiad proffesiynol. Maent wedi rhoi cymorth effeithiol i benaethiaid ac ysgolion wrth roi polisïau ar waith.

4.1.5 Mae rhai AALlau wedi rhoi enghreifftiau da o bolisïau pontio, gyda chytundeb ar draws yr awdurdod ar arferion effeithiol, y gall ysgolion eu mabwysiadu. Mae eraill wedi llunio canllawiau cynhwysfawr ar bontio, ac mae ganddynt raglenni datblygu wedi'u cynllunio'n dda sy'n cynnwys seminarau ar gyfer pob pennaeth a mentrau pontio lleol. Nod y mentrau hyn yw codi disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, gwella ansawdd addysgu a dysgu a sicrhau addysgu ac asesu medrau a phynciau yn well.

4.1.6 Mae rhai AALlau wedi cynnal cynadleddau neu wedi darparu hyfforddiant ar bontio i lywodraethwyr. Mae AALlau eraill yn darparu cylchlythyron ac arweiniad i lywodraethwyr ar bontio. Argymhella un AALl y dylai pob ysgol gael llywodraethwr â chyfrifoldeb dynodedig am bontio, ac y dylai cyrff llywodraethol drafod ac adolygu'r trefniadau pontio yn eu teulu o ysgolion.

4.1.7 Mae trefniadau ar gyfer pontio'n gweithio orau mewn AALlau lle mae'r un ymgynghorydd 'cyswllt' dynodedig gan ysgolion cynradd cyfrannol a'r ysgol uwchradd.

Ysgolion

4.1.8 Mae cysylltiadau da, a ddatblygwyd dros nifer o flynyddoedd, gan lawer o deuluoedd neu 'glystyrau' o ysgolion cynradd a'u hysgol(ion) uwchradd cysylltiedig. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau bod disgyblion wedi'u paratoi'n dda yn gymdeithasol i drosglwyddo a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn eu hysgol newydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae llawer o ysgolion wedi adeiladu ar y cysylltiadau hyn i ddatblygu ymhellach a ffurfioli trefniadau pontio, gan gynnwys cyfarfodydd staff, rhannu gwybodaeth am ddisgyblion, ymweliadau ag ysgolion, monitro cynnydd disgyblion a datblygiad proffesiynol. Mae grwpiau rheoli pontio gan nifer o deuluoedd o ysgolion, sy'n cynnwys staff priodol o'r ysgolion cynradd ac uwchradd perthnasol, sy'n cyfarfod bob tymor i gynllunio, monitro ac adolygu'r trefniadau pontio.

4.1.9 Mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd wedi cytuno ar bolisïau ar y cyd, ac mae ganddynt nodau ac amcanion clir. Mae'r polisïau ar y cyd gorau yn cynnwys datganiad clir o'r trefniadau ar gyfer:

- rheoli pontio;
- cysylltiadau bugeiliol ar gyfer bodloni anghenion personol a chymdeithasol disgyblion;
- cyfleu anghenion dysgu disgyblion unigol;
- cynllunio'r cwricwlwm ar y cyd fel bod cynlluniau gwaith yn adeiladu ar yr hyn a addysgwyd yn flaenorol;
- sicrhau parhad mewn dulliau addysgu a dysgu;
- datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) disgyblion;
- rhannu gwybodaeth am gyflawniad, cyrhaeddiad, presenoldeb ac ymddygiad disgyblion;
- cyflawni cysondeb yn yr asesu;
- monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn erbyn cyrhaeddiad blaenorol; ac
- arfarnu effaith y polisi a'r mentrau gwella ar safonau.

4.1.10 Mae uwch reolwr gwybodus â chyfrifoldeb dynodedig am drefniadau pontio gan yr ysgolion sy'n rhoi'r polisi pontio ar waith yn fwyaf effeithiol. Mae gan y rheolwyr allweddol hyn olwg glir ar y gwaith y mae angen ei wneud. Cydlynant waith pob un sy'n gyfrifol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am gynnydd disgyblion o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3, er enghraifft, penaethiaid blwyddyn neu gyfnod allweddol, penaethiaid adrannau, athrawon dosbarth, athrawon pwnc, cydlynwyr anghenion addysgol arbennig (Cydlynwyr AAA), Swyddogion Lles Addysg (SLlA) a chydlynwyr asesu. Mae athrawon yn yr ysgolion hyn yn deall eu cyfrifoldebau priodol am roi polisïau ar waith, a chânt y wybodaeth a'r adnoddau sy'n briodol i'w rolau.

4.1.11 Mae rhai ysgolion uwchradd yn ad-drefnu'u systemau rheoli a bugeiliol yng nghyfnod allweddol 3 er mwyn:

- sicrhau bod ganddynt drosolwg gweithio effeithiol o gynnydd academaidd pob disgybl; a
- darparu cynhaliaeth well i ddisgyblion fel dysgwyr.

Ar yr un pryd, cydnabyddant bwysigrwydd gofal ac arweiniad personol yn ystod y cyfnod pontio, gan ei fod yn adeg pan fydd rhai disgyblion yn fwyaf agored i niwed. Fel y dywed un AALl (Casnewydd) mewn adroddiad arolwg, 'Cyfnod Allweddol 3 yw'r adeg pan fydd y duedd tuag at anfodlonrwydd naill ai'n dechrau, yn cyflymu neu'n cael ei hatal.'

4.1.12 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn ailddiffinio rôl y cydlynydd cyfnod allweddol, y pennaeth blwyddyn neu diwtor blwyddyn i gynnwys cyfrifoldebau am:

- gysylltu ag ysgolion cynradd; a
- monitro cynnydd a safonau disgyblion ar draws y cwricwlwm pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgolion uwchradd.

Mae ysgolion hefyd yn cryfhau rôl y tiwtor dosbarth, fel bod gan y tiwtor dosbarth well gwybodaeth a dealltwriaeth o anghenion cymdeithasol a dysgu disgyblion. Mae angen llawer o gynhaliaeth unigol ar rai disgyblion Blwyddyn 7 er mwyn bodloni gofynion gwahanol cwricwlwm a threfniadaeth yr ysgol uwchradd.

4.1.13 Mae gan rai ysgolion cynradd ac uwchradd raglen dreigl ar gyfer athrawon pynciau uwchradd neu gynrychiolwyr adrannol i gyfarfod â chydlynwyr pynciau cynradd er mwyn cynllunio gwell parhad mewn addysgu pynciau. Mae hyn yn golygu edrych ar:

- gynlluniau gwaith a rennir;
- effeithiolrwydd arddulliau addysgu;
- fframwaith ar gyfer dilyniant; a
- safonau cyflawniad.

4.1.14 Mae rhan fwyaf yr ysgolion yn monitro ac yn adolygu trefniadau pontio gwell, ond ychydig sydd â moddau i arfarnu effaith gwell arfer ar safonau.

4.2 Cyflawniad, cyrhaeddiad ac anghenion dysgu.

Meddu ar wybodaeth am gyflawniad disgyblion a defnyddio'r wybodaeth honno

4.2.1. O gymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl, mae ysgolion cynradd ac uwchradd bellach yn rhannu mwy o wybodaeth am gyflawniadau a chyrhaeddiad disgyblion unigol a'r ffactorau cyfrannol, fel presenoldeb ac anawsterau ymddygiad, neu faterion teuluol a chymdeithasol. Lle mae gan ysgolion cynradd ac uwchradd drefniadau effeithiol i wneud hyn, mae athrawon uwchradd yn dechrau addysgu ar y lefel iawn ar gyfer disgyblion ar ddechrau Blwyddyn 7. Nid yw athrawon yn gwastraffu amser addysgu gwerthfawr yn chwilio am wybodaeth sydd eisoes ar gael am anghenion eu disgyblion.

4.2.2 Mae rhan fwyaf yr ysgolion uwchradd yn datblygu gwell moddau i ddod i wybod am gyrhaeddiad, cyflawniad ac anghenion dysgu disgyblion Blwyddyn 7.

Mae rhan fwyaf yr ysgolion uwchradd yn ceisio cael gwybodaeth am anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion, er enghraifft, y rheiny:

- y mae angen cymorth dysgu ychwanegol arnynt;
- sy'n tangyflawni;
- sydd mewn perygl o dangyflawni;
- sy'n alluog neu'n dalentog;
- sydd â diffyg cymhelliant neu hunanbarch;
- sydd ag anawsterau ymddygiad;
- sydd â phroblemau presenoldeb;
- y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt; ac
- sy'n blant y gofelir amdanynt.

Mae rhai ysgolion yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i sicrhau bod disgyblion yn cael yr addysgu, y gynhaliaeth neu'r mentora y mae eu hangen arnynt.

4.2.3 Mae llawer o ysgolion cynradd yn trosglwyddo gwybodaeth cyrhaeddiad am lefelau asesu athrawon yn y pynciau craidd a'r lefelau y cyrhaeddwyd mewn tasgau neu brofion y cwricwlwm cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae rhai yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol ychwanegol gan gynnwys taflenni marciau tasgau neu brofion asesu'r cwricwlwm cenedlaethol a phapurau profion disgyblion. Mae athrawon uwchradd sy'n defnyddio taflenni marciau yn ddiagnostig yn deall pa mor gadarn y mae disgyblion wedi cyrraedd lefel. Profodd hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn Cymraeg a Saesneg, lle gall lefel cyrhaeddiad disgybl fod yn wahanol yn ysgrifenedig i'r hyn ydyw mewn darllen. Mae angen gwybodaeth am gyraeddiadau blaenorol disgyblion mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg ar bob athro uwchradd, er mwyn parhau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Er mwyn rhoi proffil o gynnydd, mae rhai ysgolion cynradd yn darparu data o gyfnod allweddol 1 a gwybodaeth bellach, fel oedrannau darllen, o brofion diagnostig.

4.2.4 Mae ysgolion uwchradd sy'n cael gwybodaeth o ansawdd dda o ysgolion cynradd yn fwy ymwybodol o'r modd y gallant adeiladu ar gyflawniad presennol disgyblion o ddechrau Blwyddyn 7. Fodd bynnag, mae faint o wybodaeth a ddarperir, pryd y caiff ei darparu a'r modd y caiff ei defnyddio yn amrywio'n fawr o ysgol i ysgol. Er bod systemau'n well nag yr oeddent ddwy flynedd yn ôl, mae gormod o ysgolion cynradd o hyd nad ydynt yn trosglwyddo digon o wybodaeth o safon ymlaen i ysgolion uwchradd.

4.2.5 Mae rhai ysgolion cynradd o hyd nad ydynt yn trosglwyddo unrhyw ddata, a nifer fach o ysgolion yn unig sy'n trosglwyddo gwybodaeth yn systematig am gyrhaeddiad yn y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol. At ei gilydd, nid yw ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn cael digon o wybodaeth am gyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg. Mae rhywfaint o ddata'n dal i gyrraedd ysgolion uwchradd yn rhy hwyr i fod yn ddefnyddiol. Nid yw rhai athrawon pwnc yn

gwybod digon am alluoedd unigol ac anghenion dysgu'r disgyblion y maent yn eu haddysgu.

4.2.6 Mae gan rai ysgolion uwchradd drefniadau da i gael gwybodaeth am anghenion dysgu disgyblion sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd y tu allan i dalgylch traddodiadol yr ysgol, ond mae llawer o ysgolion uwchradd yn cael llai o wybodaeth yn aml am ddisgyblion yn y categori hwn. Gall hyn roi'r disgyblion hyn dan anfantais.

4.2.7 Mae nifer fach o ysgolion uwchradd yn defnyddio data o ysgolion cynradd yn effeithiol iawn i:

- osod targedau ysgol gyfan;
- gosod targedau ar gyfer adrannau pwnc, dosbarthiadau a disgyblion unigol;
- adolygu cynnydd tuag at dargedau;
- nodi achosion o dangyflawni gan ddisgyblion unigol, gan grwpiau ac mewn pynciau penodol; a
- chynllunio'r camau dysgu nesaf.

4.2.8 Mae aelod o'r uwch dîm rheoli â chyfrifoldeb dynodedig am drefniadau pontio gan y nifer fach o ysgolion uwchradd sy'n defnyddio gwybodaeth a data'n fwyaf effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cael a lledaenu gwybodaeth a monitro ac arfarnu pa mor dda mae gwybodaeth am berfformiad yn cael ei defnyddio i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da yng nghyfnod allweddol 3. Dim ond nifer fach o ysgolion sydd â gweithdrefn o'r fath.

4.2.9. Mae gan rai ysgolion cynradd ac uwchradd raglenni datblygedig iawn yn eu calendrau ar gyfer eu rhaglenni pontio. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys y dyddiadau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer derbyn gwybodaeth ac ar gyfer gweithio gyda rhieni ac asiantaethau eraill i baratoi ar gyfer cyfnod pontio disgyblion i'r ysgol uwchradd. Mae gan rai brotocolau er mwyn sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu darparu'n brydlon ac yn cael eu cyflwyno mewn ffyrdd hygyrch. Mae trefniadau effeithlon gan rai i wneud hyn yn electronig, mewn ffyrdd sy'n sicrhau bod gwybodaeth am ddisgybl ar gael yn hawdd i uwch reolwyr, penaethiaid adrannau, cydlynwyr AAA ac athrawon cyfnod allweddol 3.

4.2.10 Mae rhai ysgolion ac AALlau wedi dyfeisio ffurflenni i drosglwyddo gwybodaeth ar ffurf syml a safonol, ac mae llawer o AALlau yn darparu data da a systemau electronig i helpu ysgolion i reoli'r pontio. Mae ychydig o AALlau yn galluogi ysgolion i olrhain cynnydd disgyblion unigol ar draws cyfnod allweddol 3 ar sail eu perfformiad yng nghyfnod allweddol 2.

4.2.11 Mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd wedi dod o hyd i ffyrdd ymarferol o sicrhau bod gwaith a wnaethpwyd ym Mlwyddyn 6 ar gael i athrawon Blwyddyn

7, er mwyn iddynt allu gweld cyflawniadau blaenorol disgyblion a gweld ble nad ydynt yn llwyddo i wneud cynnydd. Mae cryn nifer o ysgolion uwchradd yn

darparu llyfrau ysgrifennu neu ffolderi ar gyfer gwaith ym Mlwyddyn 6 y bydd disgyblion yn parhau i'w defnyddio ym Mlwyddyn 7. Mewn rhai AALlau, mae cytundeb ynghylch darnau neu unedau gwaith cyffredin y bydd disgyblion ym mhob un o'r ysgolion cynradd sy'n bwydo yn eu gwneud yn ystod tymor yr haf, ac sy'n cael eu marcio gan athrawon cynradd. Mae hyn yn helpu athrawon uwchradd i weld anghenion unigol disgyblion, ac yn eu helpu i gynllunio ar gyfer addysgu ym Mlwyddyn 7. Mae llawer o ysgolion wedi dyfeisio unedau pontio mewn un neu fwy o bynciau y bydd disgyblion yn cychwyn arnynt ym Mlwyddyn 6 ac yn eu cwblhau ym Mlwyddyn 7. Mae gwaith llwyddiannus o'r math hwn wedi'i ddogfennu'n dda yng nghyhoeddiad ACCAC, 'Pontio'r Bwlch'.

Anghenion dysgu ychwanegol

4.2.12 Mae rhan fwyaf yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu ystod dda o wybodaeth am ddisgyblion â datganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA). Gwneir hyn am fod rhan fwyaf yr ysgolion uwchradd yn rhoi amser i'r Cydlynydd AAA weithio'n uniongyrchol gydag athrawon a disgyblion mewn ysgolion cynradd. Yn yr arfer orau, mae'r Cydlynydd AAA mewn ysgol uwchradd yn:

- mynychu adolygiadau blynyddol pob disgybl Blwyddyn 6;
- cyfarfod yn rheolaidd â chydlynwyr AAA ysgolion cynradd i adolygu cynnydd disgyblion Blwyddyn 6 ac i gynllunio darpariaeth ar eu cyfer ym Mlwyddyn 7;
- ymweld â phob ysgol gynradd yn ystod tymor yr haf, i siarad â disgyblion y bydd angen cymorth dysgu arnynt ym Mlwyddyn 7 a'u hathrawon Blwyddyn 6;
- cael copïau o gynlluniau addysg unigol mwyaf diweddar disgyblion ac yn eu rhannu ymlaen llaw â phob athro a fydd yn addysgu'r disgyblion hynny ym Mlwyddyn 7;
- darparu gwybodaeth benodol am alluoedd disgyblion mewn darllen, ysgrifennu, sillafu a gwaith rhif i athrawon Blwyddyn 7; ac yn
- dechrau monitro cynnydd unigol disgyblion ag AAA yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r mesurau hyn yn rhoi gwybodaeth briodol i'r ysgol uwchradd er mwyn cynllunio a pharatoi i fodloni anghenion unigol y disgyblion hyn.

4.2.13 Yn aml bydd ysgolion uwchradd yn cael gwybodaeth anghyflawn am ddisgyblion ag AAA y mae angen ymyriad arnynt trwy 'weithredu ysgol' a 'gweithredu ysgol a mwy', yn unol â Chôd Ymarfer AAA. Mae rhai ysgolion uwchradd yn treulio gormod o amser yn gosod profion i'r disgyblion hyn am yr eilwaith ar ddechrau Blwyddyn 7. Nid yw hyn yn defnyddio amser yn effeithiol. Mae'n waith diangen pan fydd yr ysgol gynradd yn gallu darparu'r wybodaeth berthnasol.

Ymddygiad a phresenoldeb

4.2.14 Mae sicrhau ymddygiad priodol yn flaenoriaeth yn rhan fwyaf yr ysgolion uwchradd. Yn gynyddol, mae ysgolion yn cydnabod bod cyswllt rhwng ymddygiad da ac addysgu da. Mewn rhai ysgolion, mae arsylwi gwersi a hunanarfarnu'n cynnwys edrych ar y modd y mae athrawon yn defnyddio strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad i wneud dysgu'n fwy cynhyrchiol. Gall cael gwybodaeth o ysgolion cynradd am ddisgyblion ag anawsterau ymddygiad, a'r strategaethau effeithiol sydd wedi helpu'r disgyblion hyn, atal y math o wrthdaro yn yr ysgol uwchradd a all arwain at anfodlonrwydd, ac, mewn rhai achosion, wahardd.

4.2.15 Mae rhai AALlau yn rhoi cynhaliaeth effeithiol i ddisgyblion a chanddynt anawsterau emosiynol ac ymddygiad wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mewn rhai (er enghraifft, Bro Morgannwg a Sir Benfro), mae athro cefnogi ymddygiad wedi'i hyfforddi'n gweithio ym mhob teulu neu glwstwr o ysgolion cynradd a'r ysgol uwchradd. Mae rhai athrawon cymorth ymddygiad yn darparu cynhaliaeth unigol dda wedi'i theilwra, gan gynnwys cydlynu gwaith asiantaethau eraill, ar gyfer disgyblion a chanddynt anawsterau ymddygiad wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

4.2. 16 Lle mae'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn rhannu'r un Swyddog Lles Addysg (SLlA), defnyddia'r SLlA ei wybodaeth leol am ddisgyblion Blwyddyn 6 â phresenoldeb gwael, i dargedu cynhaliaeth ychwanegol ym mlynyddoedd cynnar cyfnod allweddol 3. Mewn un ysgol, mae'r SLlA yn gweithio'n agos gyda theuluoedd pob disgybl Blwyddyn 7 yr oedd eu presenoldeb islaw 90% ym Mlwyddyn 6. Yn yr un ysgol, mae'r disgyblion hyn yn mynychu clwb brecwast ac mae gweithiwr ieuenctid yn eu helpu i ddatblygu'r medrau cymdeithasol a magu'r hyder i gael dechrau llwyddiannus yn yr ysgol uwchradd. Mae gan yr ysgol glwb 'galw-i-mewn' yn ystod yr egwyl ginio hefyd ar gyfer y disgyblion hyn. Mae'r trefniadau hyn wedi gwella presenoldeb a chymhelliant disgyblion Blwyddyn 7 sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef anfodlonrwydd.

4.2.17 Mae llawer o ysgolion uwchradd yn darparu ysgolion haf, rhaglenni mentora unigol a rhaglenni dal i fyny, ar gyfer disgyblion y mae'r ysgol gynradd o'r farn sydd fwyaf tebygol o dangyflawni wrth drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae'r rhaglenni hyn yn gwella hunanbarch disgyblion, gan y bydd disgyblion yn magu hyder wrth weithio'n unigol neu mewn grŵp bychan gydag un athro. Mae rhagweld anghenion y disgyblion hyn, a'u bodloni'n gynnar, yn eu helpu i bontio'n fwy llwyddiannus i Flwyddyn 7.

Rhannu gwybodaeth

4.2.18 Tra'n ceisio sicrhau bod y wybodaeth sydd ganddynt yn bwrpasol a bod modd ei rheoli, mae ysgolion uwchradd wedi canfod bod y wybodaeth ganlynol yn arbennig o ddefnyddiol:

- lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol a gyrhaeddodd disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd trwy asesiadau athrawon ac mewn profion neu dasgau, gan gynnwys sgorau crai o'r taflenni marciau profion a marciau yn ôl targedau cyrhaeddiad, lle'r oeddent ar gael;
- papurau profion neu dasgau cyfnod allweddol 2 wedi'u marcio, ac unrhyw waith dadansoddi a wnaeth yr athro Blwyddyn 6;
- safonau cyrhaeddiad yn y pynciau sylfaen ac addysg grefyddol;
- safonau cyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg naill ai fel mamiaith neu ail iaith;
- safonau llythrennedd disgyblion y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt;
- copïau o adroddiadau Blwyddyn 6 i rieni;
- cofnodion presenoldeb disgyblion Blwyddyn 6;
- cynlluniau cymorth ymddygiad disgyblion;
- CAUau a datganiadau anghenion addysgol;
- manylion cyflawniadau neu alluoedd arbennig disgyblion, er enghraifft, mewn cerddoriaeth, chwaraeon, celf, technoleg gwybodaeth; ac
- unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n debygol o effeithio ar drosglwyddo llwyddiannus yn gymdeithasol neu'n academaidd.

4.2.19 Yn yr arfer orau, mae ysgolion uwchradd yn rhoi adborth i ysgolion cynradd ar gyflawniadau disgyblion yn ystod Blwyddyn 7 a chyfnod allweddol 3. Mewn nifer fach o achosion, mae athrawon Blwyddyn 6 yn ymweld â'r ysgol uwchradd ar ddiwedd y tymor cyntaf i arsylwi'u disgyblion mewn dosbarthiadau ac i edrych ar eu gwaith. Mae gweithio gydag athrawon uwchradd yn y modd hwn yn helpu i nodi disgyblion nad ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig, a hynny cyn gynted ag y bo modd.

4.3 Addysgu a dysgu

Cyflawni parhad

4.3.1 Mae llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r cwricwlwm cenedlaethol a'i drefniadau asesu cysylltiedig fel fframwaith i adolygu pa mor dda y maent yn cynllunio ar gyfer parhad a dilyniant rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae grwpiau o athrawon cynradd ac uwchradd mewn llawer o ysgolion wedi cydweithio i:

- gael mwy o wybodaeth am y rhaglenni astudiaeth ar gyfer cyfnodau allweddol ei gilydd;
- datblygu'u cynlluniau gwaith i ddileu achosion o ddyblygu neu ailadrodd, pan fydd disgyblion yn symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7;
- cynllunio unedau gwaith a gychwynnwyd ym Mlwyddyn 6 ac a gwblhawyd ym Mlwyddyn 7;
- dysgu am ddulliau addysgu a dysgu gwahanol;
- datblygu ymagweddau cyson tuag at fedrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm;
- cyd-asesu gwaith disgyblion ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 7;
- cytuno ar gryfderau a gwendidau mewn gwybodaeth a medrau unigol disgyblion a chynllunio addysgu sy'n adeiladu ar y wybodaeth hon; a
- monitro cynnydd disgyblion.

4.3.2 Mae'r ysgolion sydd wedi gwneud fwyaf i wella parhad mewn addysgu a dysgu wedi trefnu i athrawon cynradd ac uwchradd arsylwi dulliau addysgu a gwaith disgyblion yn nosbarthiadau ei gilydd. O ganlyniad, mae athrawon cynradd ac uwchradd wedi dod yn fwy ymwybodol o'r modd y caiff pynciau a medrau eu haddysgu yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, ac wedi addasu'u harfer i gyflawni dilyniant. Arweiniodd hyn at gynlluniau gwaith ar y cyd neu unedau pontio fel y'u disgrifir yn llawn yng nghyhoeddiad ACCAC 'Pontio'r Bwlch'.

4.3.3 Mae rhai ysgolion uwchradd wedi gwneud cynnydd da wrth ddatblygu strategaethau ysgol gyfan ar gyfer addysgu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh fel rhan o ddysgu ar draws y cwricwlwm. Adeilada'r arfer hon yn effeithiol ar y modd y mae disgyblion yn dysgu'r medrau hyn yng nghyfnod allweddol 2. Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi penodi cydlynwyr i ddatblygu ymagwedd ysgol gyfan tuag at addysgu'r medrau hyn. Mae cydlynwyr uwchradd bellach yn gweithio'n agosach gyda chydlynwyr yn eu hysgolion cynradd partner er mwyn sicrhau eu bod yn fwy ymwybodol o safonau disgyblion mewn medrau allweddol wrth iddynt gyrraedd Blwyddyn 7. Mewn TGCh y mae'r amrywiad mwyaf mewn safonau. Mae angen i'r addysgu ym Mlwyddyn 7 roi mwy o ystyriaeth i fedrau blaenorol disgyblion mewn TGCh. Gyda rhai eithriadau rhagorol, nid yw rhaglenni darllen ac ysgrifennu llwyddiannus yn cael eu canlyn yn ddigon systematig mewn ysgolion uwchradd.

Dysgwyr fel meddylwyr

4.3.4 Mae bron pob ysgol uwchradd wedi ceisio gwella dulliau addysgu trwy ganolbwyntio ar y modd y mae disgyblion yn dysgu. Mae llawer o ysgolion uwchradd yn datblygu polisïau ysgol gyfan ar ddysgu. Ysgogwyd llawer o'r mentrau ysgol uwchradd hyn trwy arsylwi'r modd y mae disgyblion yn dysgu mewn ysgolion cynradd.

4.3.5 Mae'r gwaith pwysig y mae rhai ysgolion yn ei wneud ar fedrau meddwl yn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu diddordeb disgyblion mewn dysgu, er enghraifft, rhaglenni 'Dewch i Feddwl' mewn ysgolion cynradd a mentrau tebyg mewn ysgolion uwchradd. Mae rhai AALlau yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i fedrau meddwl yng nghyfnod allweddol 2, ac maent yn parhau â'r gwaith hwn yng nghyfnod allweddol 3. Mae disgyblion yn dysgu'n fwy effeithiol pan gânt eu herio i ofyn cwestiynau anodd ynghylch yr hyn y maent yn ei ddysgu ac i ddefnyddio'u gwybodaeth am bwnc i ddatrys problemau. Lle caiff disgyblion eu haddysgu yn y modd hwn, gallant drosglwyddo'n well a defnyddio strategaethau dysgu'n annibynnol mewn sefyllfaoedd llai cyfarwydd. Ar hyn o bryd, ychydig o ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd i ddatblygu medrau meddwl a dysgu disgyblion yn effeithiol ac yn gyson ar draws cyfnodau allweddol 2 a 3.

Asesu ar gyfer dysgu

4.3.6 Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae rhai ysgolion wedi neilltuo amser i athrawon cynradd ac uwchradd gydweithio i asesu gwaith disgyblion wrth iddynt symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Arweinia hyn at gynllunio camau nesaf y dysgu yn well.

4.3.7 Mae rhai ysgolion cynradd ac uwchradd wedi defnyddio cyhoeddiadau a fideos ACCAC 'Gwneud Defnydd Effeithiol o Wybodaeth Asesu' fel man cychwyn cynhyrchiol ar gyfer gwaith ar y cyd ar sicrhau asesiadau cywir a chyson. Trwy ddefnyddio detholiad o waith gan ddisgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 o alluoedd gwahanol, mae'r athrawon yn yr ysgolion hyn wedi dod i ddealltwriaeth a rennir ynghylch dehongli a defnyddio disgrifwyr lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol a disgrifwyr diwedd cyfnod allweddol. Wrth wneud hynny, mae'r athrawon wedi magu hyder yn asesiadau'u gilydd. I wneud y dasg hon yn haws i'w rheoli, yn enwedig ar gyfer athrawon cynradd, mae ysgolion wedi gweld ei bod yn ddefnyddiol canolbwyntio ar nifer fach o bynciau ymhob blwyddyn a gweithio ar agweddau dewisol ar y rhaglenni astudio. Mae datblygu portffolio ar y cyd yn dangos dealltwriaeth gytûn o safonau a dilyniant wedi bod yn ganlyniad arbennig o ddefnyddiol o'r gwaith hwn.

4.3.8 Canlyniad pellach fu gwell dealltwriaeth o'r mathau o dasgau ac ymagweddau tuag at addysgu a dysgu sy'n briodol i ddisgyblion o alluoedd gwahanol. Mae'r broses hefyd wedi arwain at ddisgwyliadau cytûn o ran cynnwys a ffurf gwaith.

4.3.9 Mae rhai athrawon cynradd ac uwchradd yn cydweithio i wella'r modd y maent yn marcio gwaith disgyblion. Dônt o hyd i ffyrdd i helpu disgyblion ddeall yr hyn y gallant wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud nesaf i ddelio â gwendidau. Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn cynnal sesiynau safoni ar y cyd

gyda disgyblion cyfnod allweddol 2 gyda'r diben hwn mewn cof. Mae safoni ar y cyd wedi cael dylanwad mawr ar wella arfer asesu.

4.4 Cwricwlwm a threfniadaeth

4.4.1 Mae rhai ysgolion wedi gofyn am farnau disgyblion Blwyddyn 7 fel rhan o wella'u trefniadau pontio. Dywedodd disgyblion Blwyddyn 7 a gafodd eu cyfweld y llynedd mai un o'u heriau mwyaf oedd addasu i'r modd yr oedd y cwricwlwm yn cael ei drefnu mewn ysgolion uwchradd. Canfu rhai disgyblion bod y trefniadau newydd yn ysgogol, ond nid oedd medrau trefniadol disgyblion eraill yn eu galluogi i addasu'n hawdd i fwy o wersi mewn diwrnod, gydag athrawon gwahanol, mewn rhannau gwahanol o'r ysgol. Roedd rhai disgyblion yn canfod bod cofio'r hyn yr oedd ei angen arnynt bob dydd, ei gludo o gwmpas ac edrych ar ôl eu heiddo yn anodd iawn. Llwyddodd disgyblion eraill i addasu'n haws, ond gan deimlo eu bod wedi colli'u hunaniaeth a'r cyfle i arfer cyfrifoldebau o'r math a oedd ganddynt yn yr ysgolion cynradd.

4.4.2 Mae llawer o ysgolion yn chwilio am ffyrdd i esmwytho'r cyfnod pontio i drefniant mwy cymhleth y cwricwlwm uwchradd. Mae trefniadau llwyddiannus yn cynnwys:

- cyfnod sefydlu pan gaiff disgyblion eu haddysgu gan nifer fach o athrawon am ran fwyaf yr amser;
- grwpio pynciau o fewn cyfadrannau, er enghraifft, mewn dyniaethau a gwyddoniaeth, lle bydd un athro'n addysgu'r holl bynciau o fewn y gyfadran, gan ddefnyddio ymagwedd thematig yn aml;
- amserlennu rhai gwersi pwnc ar sail dosbarth tebyg i'r ystafell ddosbarth gynradd;
- creu ardal o'r ysgol lle mae gan ddisgyblion Blwyddyn 7 hunaniaeth neilltuol a lle gallant ymgymryd ag ystod o gyfrifoldebau'n ymwneud â'u hardal 'gartref' a'u grŵp blwyddyn;
- integreiddio addysgu medrau astudio'n annibynnol, medrau gwaith cartref, medrau trefnu a medrau cymdeithasol i bob pwnc gan ddefnyddio ymagwedd gyffredin a gytunwyd; a
- lleoli cynorthwywyr cymorth dysgu'n fwy cyson gyda disgyblion unigol yn hytrach nag mewn meysydd pwnc gwahanol.

4.5 Datblygiad proffesiynol ac adnoddau

4.5.1 Mae rhai AALlau yn darparu rhaglen o weithgareddau hyfforddi a datblygu wedi'i chynllunio'n dda, sy'n cynnwys staff allweddol o ysgolion uwchradd a chynradd. Nod un AALl yw darparu hyfforddiant ar gyfer athro allweddol o'r pynciau craidd ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd, a chael rhaglenni pontio ym mhob teulu o ysgolion erbyn 2004.

4.5.2 Lle mae AALlau wedi rhoi cymorth i gonsortia unigol neu deuluoedd o ysgolion o fewn terfyn amser realistig y gellir ei reoli, mae datblygiad proffesiynol ar y cyd ar gyfer athrawon wedi cael effaith gadarnhaol ar gynllunio ar gyfer parhad dysgu disgyblion ar draws Blynyddoedd 6 a 7.

4.5.3 Mae rhai mentrau penodol, er enghraifft, y Canolfannau Datblygu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol a'r rhaglenni Addysg a Mwy (Education Extra), sef dysgu y tu allan i oriau ysgol, yn cynnig cyfleoedd effeithiol ar gyfer datblygiad staff traws-gyfnod.

4.5.4 Mae llawer o ysgolion wedi dechrau gwella'r cyfnod pontio trwy nawdd neu gymorth a ddarperir gan:

- Lywodraeth Cynulliad Cymru,
- AALlau;
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC);
- Yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol; a
- GEST

4.5.5 Mae rhai AALlau ac ysgolion yn ansicr ynghylch cynaladwyedd eu rhaglenni yn 2004-05, yn dilyn cyhoeddiadau am newidiadau i gyllidebau GEST a CACC.

4.5.6 Mae penaethiaid eisiau datblygu patrymau cydweithio sy'n lleihau gymaint â phosibl y nifer o weithiau y mae athrawon i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth. Teimlant hefyd fod gormod o fentrau'n ymestyn eu gallu i ryddhau athrawon o'r ystafell ddosbarth heb gael effaith niweidiol ar raglenni addysgu.